CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1992 (Cy. 144 )

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Diwygio (Rhif 2) y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn peri diwygiadau pellach i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992 ("Rheoliadau 1992"), sy'n rheoleiddio'r telerau y mae Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn cael eu darparu odanynt o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae Rheoliad 34 o Reoliadau 1992 yn gwneud darpariaeth, ym mharagraff (1), i Awdurdod Iechyd wneud taliadau, yn unol â chyfraddau ac amodau a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol, i feddygon sy'n darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn ei ardal.

O fis Awst 2000 ymlaen, ni fydd hyfforddiant galwedigaethol Ymarferwyr Cyffredinol yn cael ei ariannu mwyach o gyllideb Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Awdurdod Iechyd. Ar ôl hynny, bydd Awdurdod Iechyd yn gwneud taliadau mewn perthynas â lwfansau ar gyfer hyfforddiant Ymarferwyr Cyffredinol yn unol â chyfarwyddiadau i Awdurdodau Iechyd ynghylch Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol.

Gan hynny, mae rheoliad 34(2) o Reoliadau 1992 yn cael ei ddiwygio er mwyn tynnu'r cyfeiriad at lwfansau ar gyfer hyfforddiant meddygon o blith y materion y mae'n rhaid darparu ar eu cyfer o dan baragraff (1) o'r rheoliad hwnnw.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1992 (W. 144 )

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (General Medical Services) Amendment (No.2) (Wales) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

These Regulations further amend the National Health Service (General Medical Services) Regulations 1992 ("the 1992 Regulations"), which regulate the terms on which General Medical Services are provided under the National Health Service Act 1977.

Regulation 34 of the 1992 Regulations makes provision at paragraph (1) for a Health Authority to make payments, in accordance with the rates and conditions determined by the National Assembly, to doctors who provide General Medical Services in its area.

From August 2000 vocational training for General Practitioners will no longer be funded from a Health Authority's General Medical Services budget. Thereafter, a Health Authority will make payments in respect of allowances for training for General Practitioners in accordance with directions to Health Authorities concerning General Practice Registrars.

Accordingly, regulation 34(2) of the 1992 Regulations is amended to remove the reference to allowances for training doctors from the matters for which provision shall be made under paragraph (1) of that regulation.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1992 (Cy. 144 )

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Diwygio (Rhif 2) y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *13 Gorffennaf 2000* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 29 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**a**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw:-

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso.**

**1.-**(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio (Rhif 2) y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Awst 2000.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

(a) 1977 p. 49; gweler adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i), i gael diffiniadau o "prescribed" a "regulations". Estynnwyd adran 29 gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p. 49), adran 17; a'i diwygio gan Ddeddf Gwasanaethau Iechyd 1980 (p. 53), adrannau 1 a 7 ac Atodlen 1, paragraff 42(b); gan Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 (p. 41), Atodlen 6, paragraff 2; gan y Ddeddf Feddygol 1983 (p. 54), adran 56(1) ac Atodlen 5, paragraff 16(a); gan O.S. 1985/39, erthygl 7(3); gan Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17), Atodlen 1, paragraff 18; a chan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p. 46), Atodlen 2, paragraff 8. Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2); ac (yn Lloegr) gan Ddeddf Iechyd 1999 (p. 8), Atodlen 4, paragraff 37(6). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 29 a 126(4) o Ddeddf 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1992 (W. 144 )

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (General Medical Services) Amendment (No.2) (Wales) Regulations 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *13th July 2000* |
| *Coming into force* | *1st August 2000* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred upon it by sections 29 and 126(4) of the National Health Service Act 1977(**a**), and of all other powers enabling it in that behalf:-

**Citation, commencement, interpretation and application**

**1.-**(1) These Regulations may be cited as the National Health Service (General Medical Services) Amendment (No.2) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 1st August 2000.

(2) In these Regulations, "the 1992 Regulations" means the National Health Service (General Medical

(a) 1977 c. 49; see section 128(1) as amended by the National Health Service and Community Care Act 1990 (c.19) ("the 1990 Act"), section 26(2)(g) and (i), for the definitions of "prescribed" and "regulations". Section 29 was extended by the Health and Medicines Act 1988 (c. 49), section 17; and amended by the Health Services Act 1980 (c. 53), sections 1 and 7 and Schedule 1, paragraph 42(b); by the Health and Social Services and Social Security Adjudications Act 1983 (c. 41), Schedule 6, paragraph 2; by the Medical Act 1983 (c. 54), section 56(1) and Schedule 5, paragraph 16(a); by S.I. 1985/39, article 7(3); by the Health Authorities Act 1995 (c.17), Schedule 1, paragraph 18; and by the National Health Service (Primary Care) Act 1997 (c. 46), Schedule 2, paragraph 8. Section 126(4) was amended by the 1990 Act, section 65(2); and (in England) by the Health Act 1999 (c. 8), Schedule 4, paragraph 37(6). The functions of the Secretary of State under sections 29 and 126(4) of the 1977 Act were transferred to the National Assembly for Wales under article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I. 1999/672.

(Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992(**a**).

(3) Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygio Rheoliadau 1992**

**2.** Yn Rheoliad 34(2) o Reoliadau 1992 (taliadau), yn lle is-baragraff (e) rhoddir -

“ (e) allowances for study leave;”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**).

Services) Regulations 1992(**a**).

(3) These Regulations shall apply to Wales only.

**Amendment of the 1992 Regulations**

**2**. In Regulation 34(2) of the1992 Regulations (payments), for sub-paragraph (e) shall be substituted –

“ (e) allowances for study leave;”.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**).

*Dafydd Elis Thomas*

13 Gorffennaf 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

13th July 2000

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 1992/635, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1993/540 a 1997/2468.

(b) 1998 p. 38.

(a) S.I. 1992/635, relevant amending instruments are S.I. 1993/540 and 1997/2468.

(b) 1998 c. 38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

**2000 Rhif 1992 (Cy. 144 )**

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Diwygio (Rhif 2) y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 No. 1992 (W. 144 )**

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (General Medical Services) Amendment (No.2) (Wales) Regulations 2000

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090117-7

9 780110 901176

**£1.50**

W/66/08/00 ON